



## 4.0 Gwirfoddolwyr

### Hysbysebu Cyfleoedd Gwirfoddoli yn Ddwylieithog

#### Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Rhestr termau: Teitlau Rolau Gwirfoddoli
3. Rhestr termau: Disgrifio Manylion Cyfleoedd
4. Rhestr termau: Categoriâu Rolau Gwirfoddoli
5. Rhestr termau: Disgrifio Manylion Lleoliadau
6. Rhestr termau: Disgrifio Amserau'r Cyfle
7. Rhestr termau: Disgrifio Sgiliau, Diddordebau a Phriodoleddau
8. Rhestr termau: Disgrifio'r Cymorth a'r Oruchwyliaeth sydd ar gael
9. Rhestr termau: Disgrifio'r Broses Recriwtio

#### Cyflwyniad

Fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i sicrhau gwasanaethau dwylieithog cyfartal ac fel gofyniad rheoleiddio, rydyn ni'n ceisio postio'r holl gyfleoedd ar y wefan yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn aml, chi, y mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, fydd yn postio cyfleoedd ar y wefan yn uniongyrchol ac yn eu diweddarau. Dro arall, gallech fod yn postio gwybodaeth drwy eich Canolfan Gwirfoddoli Lleol. Naill ffordd neu'r llall, mae'n anodd i'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg sicrhau bod fersiynau Cymraeg ar gael.

Dyma wybodaeth y gobeithiwn y bydd yn hwyluso pethau.



#### **Dolen Allanol**

Canllawiau i fudiadau ar hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y wefan [Gwefan Gwirfoddoli Cymru](#)

Mae llawer o'r brawddegau mewn disgrifiadau rôl yn cael eu defnyddio'n aml ac rydyn ni wedi nodi rhai ohonyn nhw yma. Gan ddefnyddio'r rhain, gallwch ddechrau llunio eich templed eich hun o ddisgrifiad rôl yn ddwyieithog (gallai'r un templed fod yn sail i nifer o gyfleoedd sydd gennych i'w cynnig). Efallai y bydd wedyn angen i chi ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu neu ddod o hyd i siaradwr Cymraeg, efallai gwirfoddolwr. Nid yw'n arfer gorau i ddefnyddio 'Google Translate' oherwydd gall fod yn annibynadwy ac arwain at wallau. Wedi dweud hynny, gellir ei ddefnyddio os oes gennych chi gydweithiwr Cymraeg sy'n gallu prawfddarllen y testun.

Efallai y gallwch chi lawrlwytho [Cysill a Cysgair](#), y gwasanaeth gwirio sillafu Cymraeg am ddim. Gellir cael y pecyn hwn drwy gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer mudiadau sy'n cyflogi 10 aelod o staff neu lai ar hyn o bryd. Gellir hefyd ei brynu os yw eich mudiad yn cyflogi mwy na 10 aelod o staff.

Mae [Helo Blod](#) yn wasanaeth newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer busnesau bach ac elusennau. Mae'n cynnig cyfieithiadau o hyd at 500 gair y mis am ddim ac yn cynnig prawfddarllen hyd at 1,000 o eiriau'r flwyddyn am ddim. Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn cynnig prawfddarllen hyd at 1,000 o eiriau'r flwyddyn am ddim.



### Gwybodaeth

Os oes brawddegau ychwanegol a ddefnyddir yn aml a fyddai'n fuddiol i ni eu hychwanegu at y rhestr hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at

[volunteering@wcva.org.uk](mailto:volunteering@wcva.org.uk)

### Defnyddio Tagiau

Tagiau yw geiriau allweddol sy'n ddefnyddiol tu hwnt wrth chwilio am wybodaeth a chyfleoedd gwirfoddoli penodol. **Er enghraifft, ar gyfer rôl Gyfeillio, gallech ddefnyddio geiriau tag fel 'ynysig', 'iechyd meddwl' neu 'cymorth'.** Drwy wneud hyn, bydd eich rolau gwirfoddoli yn fwy hygyrch ac yn haws dod o hyd iddynt.



### Cofiwch

Cofiwch ddefnyddio'r geiriau tag Cymraeg a Saesneg er mwyn bod yn gynhwysol i bawb.

## Teitlau Rolau Gwirfoddoli

### Volunteering Role Title

Cymorth Gweinyddol	Admin Support
Cymorth Gweinyddol Cyffredinol	General Administration Support
Gwirfoddolwr Cyfeillio	Befriending Volunteer
Gwirfoddolwr Cyfarfod a Chyfarch	Meet and Greet Volunteer
Derbynnydd	Receptionist
Cyfeillio mewn Ysbyty	Hospital Befriending
Gwirfoddolwyr Manwerthu/ Gwasanaeth Cwsmeriaid	Retail/Customer Service Volunteers
Cyfieithydd Cymraeg Gwirfoddol	Welsh Language Translator Volunteer
Ymddiriedolwyr	Trustees
Swyddogion Codi Arian	Fundraisers
Swyddog Codi Arian Cymunedol	Community Fundraiser
Garddwr	Gardener
Cynorthwydd Cyngor Canser	Cancer Advice Assistant
Cerddor	Musician
Tywysydd	Tour Guide
Stiward digwyddiadau	Event Steward
Swyddog Cymorth cyntaf	First Aider
Trysorydd	Treasurer
Ysgrifennydd	Secretary
Cynorthwydd Clwb Ieuenctid	Youth Club Assistant
Cynllun Ymladdwyr Tân Ifanc	Young Fire Fighters Scheme

## **Teitlau Rolau Gwirfoddoli** Volunteering Role Title

Cynllun Ymladdwyr Tân Ifanc

Arweinydd Ifanc

Swyddog Codi Arian  
Digwyddiadau

Gofalwr

Gyrrwr Car Gwirfoddol

Gwirfoddolwr Cyfryngau a  
Chyhoeddusrwydd

Helpwr Clwb Gweithgareddau

Hyrwyddwr Unigolyn Ifanc

Ymwelydd Annibynnol

Arweinydd Chwaraeon

Cyflwynydd radio

Ymwelydd ward

Gwirfoddolwr Ystafell Stoc

Cynorthwydd Caffi

Ffotograffydd

Arweinydd Grŵp

Rolau Amrywiol

Maethwr Cŵn

Gwirfoddolwr Clwb Cinio

Gwirfoddolwr Cymorth Codi  
arian

Cydlynnydd Casglu

Gwirfoddolwr Cyfathrebu

Young Fire Fighters Scheme

Young Leader

Events Fundraising Officer

Caretaker

Volunteer Car Driver

Media and Publicity Volunteer

Activity Club Helper

Young Person's Champion

Independent Visitor

Sports Leader

Radio Presenter

Ward Visitor

Stock Room Volunteer

Cafe Assistant

Photographer

Group Leader

Variety of Roles

Dog Fosterer

Lunch Club Volunteer

Fundraising Support  
Volunteer

Collection Co-Ordinator

Communication Vounteer

## Teitlau Rolau Gwirfoddoli

### Volunteering Role Title

Cynorthwydd Manwerthu  
Gwirfoddol

Volunteer Retail Assistant

Gwirfoddolwr Prosiect : Ein  
Rhwydweithiau Cymdeithasol

Project Volunteer: Our Social  
Networks

## Disgrifio Manylion Cyfleoedd

### Describing opportunity details

Cynnig gwasanaeth i  
gwsmeriaid

Providing customer service

Helpu cwsmeriaid pan fydd  
angen

Helping customers when  
needed

Gwerthu mewn siop/warws  
Glanhau yn ôl yr angen.

Shop sales/warehousing  
Cleaning as required

Trefnu rhoddion

Sorting donations

Stemio dillad

Steaming clothes

Prisio a hongian dillad

Pricing and hanging of clothes

Dyletswyddau cyffredinol

General duties

Gweithio til arian

Operating cash till

Addurno ffenestri

Window dressing

Rydyn ni angen pobl i helpu  
gyda gweithgareddau  
yn y gymuned

We need people to help with  
activities within the community

megis casglu arian mewn  
bwced, gwerthu nwyddau a  
chyflwyniadau codi  
ymwybyddiaeth.

such as bucket collections,  
merchandise sales and  
awareness presentations

## Disgrifio Manylion Cyfleoedd

### Describing opportunity details

Ymdrin â galwadau ffôn gan gynnwys ymholiadau a throsglwyddo galwadau fel y bo'n briodol

Paratoi a chlirio ystafelloedd

Delio gydag archebion ystafelloedd ac archebion sesiynau therapi

Cysylltu â darparwyr a chyfranogwyr cyrsiau

Sicrhau y cedwir at y weithdrefn llofnodi i mewn ac allan

Aelod Pwyllgor

Dyletswyddau i gynnwys:- rheoli staff, gwneud ceisiadau am gyllid, adolygiadau perfformiad ac ati

Deal with phone calls, including enquiries and forwarding as appropriate

Preparation and clearing of rooms

Deal with room bookings and therapy session bookings

Liaise with course providers and participants

Ensure signing in and out procedure is adhered to

Committee member

Duties to include: managing staff, bidding for funding, performance reviews etc.

## Categoriâu Rolau gwirfoddoli

### Categories for volunteer roles

Gwaith swyddfa a gweinyddol

Gwaith cynghori a chwmsela

Eiriolaeth

Anifeiliaid

Cyfeillio

Administration and office work

Advice work and counselling

Advocacy

Animals

Befriending

## Categoriâu Rolau gwirfoddoli

### Categories for volunteer roles

Ymgyrchu a lobïo

Gofalu

Siopau a manwerthu elusennol

Plant a theuluoedd

Diogelwch cymunedol

Gwaith cymunedol

Cyfrifiaduron a thechnoleg

Anabledd ac iechyd

Gyrru

Cyffuriau a dibyniaeth

Addysg a llythrennedd

Cyflogaeth

Codi arian

Rhywedd a rhywioldeb

Datblygu cynaliadwy/gwyrdd

Digartrefedd a thai

Ysbytai a hosbisau

Hawliau dynol a sifil

Ieithoedd

Gwaith cyfreithiol

Rheoli gwaith pwyllgor

Marchnata/Cysylltiadau  
cyhoeddus a'r cyfryngau

Iechyd meddwl

Campaigning and lobbying

Caring

Charity shops and retail

Children and families

Community safety

Community work

Computers and technology

Disability and health

Driving

Drugs and addiction

Education and literacy

Employment

Fundraising

Gender and sexuality

Green/sustainable development

Homelessness and housing

Hospitals and hospices

Human and civil rights

Languages

Legal work

Management and committee  
work

Marketing/PR and media

Mental health

## Categoriâu Rolau gwirfoddoli

### Categories for volunteer roles

Pobl hŷn

Gweithgareddau tramor

Gwaith ymarferol a 'DIY'

Carcharorion a chyn-  
droseddwyr

Hil/ethnigrwydd/ffoaduriaid

Chwaraeon/adloniant a  
hamdden

Dysgu a hyfforddi

Y celfyddydau/diwylliant a  
threftadaeth

Ymddiriedolwyr

Grwpiau menywod

Gwaith ieuencid

Older people

Overseas activities

Practical and DIY

Prisoners and ex-offenders

Race/ethnicity and refugees

Sports/recreation and leisure

Teaching and training

The arts/culture and heritage

Trustees

Women's groups

Youth work

## Disgrifio manylion lleoliadau

### Describing location details

Ym mha fath o eiddo...

Yn y gymuned gan gynnwys  
gweithgareddau dan  
do/awyr agored

Tu allan

Mewn cartrefi teuluoedd

Mewn ffatri

Mewn swyddfa/siop elusen

What type of premises...

Community based including  
indoor/outdoor activities

Outdoors

In family's homes

Factory based

Office/charity shop based



## Disgrifio manylion lleoliadau

### Describing location details

Mewn llys

Gwaith fferm

Ysbyty

Siop Elusen

Mewn ysgolion lleol

Safleoedd amrywiol drwy'r  
Gymuned

Byddai parodrwydd i deithio  
ar adegau yn ddefnyddiol

Hollol hygyrch

Wedi'i asesu ar gyfer risg tân

A ddarperir trafndiaeth?

Llwybrau bysiau cyhoeddus/  
gorsafoedd trenau cyfagos...

Gallech gyrraedd ar  
drafnidiaeth gyhoeddus

Ar lwybr bysiau

Gorsaf drenau agosaf

Ar lwybr bws lleol ac nid yw'n  
bell o'r orsaf drenau

At court

Farm work

Hospital

Charity shop

At local schools

Various locations through the  
community

Willingness to travel on  
occasion would be helpful

Fully accessible

Assessed for fire risk

Is transport provided?

Public bus routes/train stations  
nearby...

Accessible by public transport

On a bus route

Nearest train station

On local bus route and not far  
from the train station

## Disgrifio Amserau'r Cyfle

### Describing opportunity times

Addas ar gyfer gweithwyr sifft

Lleiafswm oriau

Mae'r rôl hon yn hyblyg

Yn ôl yr angen

Gellir trafod oriau  
gwirfoddolwyr

Rhwng 10am a 4pm dydd  
Llun, neu rhwng 10am a  
2pm dydd Mawrth

Amserau fel y bo'n addas i'r  
gwirfoddolwr a'r rota

Amseroedd i'w cytuno

Gallwn fod yn hyblyg o ran  
pryd rydych ar gael, ond bydd  
angen ymrwymiad rheolaidd  
bob mis

Suited to shift workers

Minimum hours

This role is flexible

As and when required

Volunteer hours are negotiable

Monday 10am - 4pm or  
Tuesday 10am - 2pm

Times to suit the volunteer and  
the rota

Times to be agreed

We can be flexible around  
your availability although we  
will require a regular monthly  
commitment

## Disgrifio sgiliau, diddordebau a phriodoleddau

### Describing skills, interests and qualities

Dibynadwy, cyfeillgar, gonest,  
rhagweithiol ac yn  
credu mewn cyfle cyfartal

Anfeirniadol

Sgiliau cyfrifiadurol da

Sgiliau TG: Skype, e-bost,  
gwefannau rhwydweithio  
cymdeithasol a'r we yn  
gyffredinol

Reliable, friendly, honest,  
proactive with a belief in  
equality of opportunity

Non-judgemental

Good computer skills

IT skills: Skype, email, social  
networking sites and the web in  
general

## Disgrifio sgiliau, diddordebau a phriodoleddau

### Describing skills, interests and qualities

Bydd angen i wirfoddolwyr fod yn glên gan y byddant yn delio â'r cyhoedd

Byddai profiad gweinyddol blaenorol yn fanteisiol ond nid yw'n hanfodol

Sgiliau trefnu da

Sgiliau cyfathrebu da yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddymunol

Diddordeb mewn hanes lleol a'r gymuned

Sgiliau pobl da

Cyfeillgar, hyderus a rhadlon

Hyblyg gydag ymrwymadau amser

Brwdfrydig, gyda sylw da i fanylion

Rhaid cael trwydded yrru lân a bod dros 25 oed, at ddibenion yswiriant

Rhywun cyfeillgar, dibynadwy a hawdd mynd ato/ati. Y gallu i wrando ar gwestiynau ac i ateb yn briodol

Hapus i weithio gydag ystod eang o bobl, yn enwedig yr henoed

Volunteers need to have a pleasant manner as they will be dealing with members of the public

Previous administrative experience is preferred but not essential

Good organisational skills

Good communication skills in both English and Welsh desirable

Interest in local history and the community

Good people skills

Friendly, confident and outgoing

Flexible with time commitments

Enthusiastic, with good attention to detail

Must have clean driving licence and be aged 25+ for insurance purposes

Friendly, reliable and approachable manner. Ability to listen to questions and to answer appropriately

Happy to work with a wide range of people especially the elderly

## Disgrifio sgiliau, diddordebau a phriodoleddau

### Describing skills, interests and qualities

Nid yw profiad blaenorol o godi arian yn hanfodol

Rhaid meddu ar sgiliau technoleg a chyfathrebu da

Sgiliau cyfathrebu da

Sgiliau cyfathrebu rhesymol a'r gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phobl

Trwydded yrru lawn. Bydd defnyddio eich car eich hun o fantais

Efallai edrychir ar drefniadau trafnidiaeth eraill pan fo'n bosibl, ar sail unigol

Gwybodaeth dda o'r ardal leol

Brwdfrydedd am welliant

Sgiliau mewn Adnoddau Dynol, codi arian, cyfrifon, cyfreithiol, ymgyrchu a chyfryngau.

Addas ar gyfer unigolion 16 oed a hŷn

Rhaid bod dros 18 oed

Rhaid bod yn hyderus wrth ddelio â'r cyhoedd

Previous experience of fundraising is not essential

Must have good technology and communication skills

Good communication skills

Reasonable communication skills and ability to get on well with people

A full driving licence with use of own car would be an advantage

Alternative transport arrangements may be looked at, where possible, on an individual basis

Good knowledge of the local area

A passion for improvement

Skills in HR, fundraising, accounts, legal, campaigning and media

Suitable for those 16 years and over

Must be aged 18+

Must be confident dealing with the public

## Disgrifio sgiliau, diddordebau a phriodoleddau

### Describing skills, interests and qualities

Rhaid bod yn hyderus fel y cyswllt cyntaf ar gyfer pobl a allai fod yn sâl neu wedi eu cynhyrfu, a gwybod at bwy y dylid eu cyfeirio atynt

Anogir ymgeiswyr o bob gallu

Yr unig beth sydd ei angen arnoch chi yw brwdfrydedd a pharodrwydd i helpu pobl eraill

Must be confident as the first point of contact for people who may present as unwell or distressed and know who to direct them to

Applicants of all abilities are encouraged

All you need is you enthusiasm and willingness to help others

## Disgrifio'r Cymorth a'r Oruchwyliaeth sydd ar gael

### Describing the support and supervision available

Cynefino

Goruchwyliaeth un i un

Cymorth gan gymheiriaid

Mentora/cyfeillio

Digwyddiadau cymdeithasol/cyfarfodydd

Angen cymorth ychwanegol

Bydd y gwirfoddolwr bob amser yn gweithio gyda gwirfoddolwyr eraill

Bydd gwirfoddolwyr yn gweithio mewn grŵp ac ar eu liwt eu hunain hefyd

Induction

One to one supervision

Peer support

Mentoring/buddying

Social events/meetings

Need additional support

The volunteer will always work with other volunteers

Volunteers will be working in a group and also on their own

## Disgrifio'r Cymorth a'r Oruchwyliaeth sydd ar gael

### Describing the support and supervision available

Gallwch gyflawni'r rôl hon yn annibynnol, neu mewn grŵp

Bydd gwirfoddolwyr yn gweithio gyda staff cyflogedig i ddechrau cyn symud ymlaen i weithio gyda gwirfoddolwyr eraill

Rôl unigol neu fe allwch fynd â ffrind/aelod o'r teulu gyda chi am gefnogaeth

Hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gael

Ar ôl sesiwn gynefino gychwynnol, gall gwirfoddolwyr ddewis gweithio ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill

Rhan o bwyllgor

The role can take place on your own, or in a group

Volunteers will work with paid staff at first and then work with other volunteers

Individual role or take a friend/family member along as support

Training and full support provided

After initial induction, volunteers can decide to work alone or with others, friend. family member along as support

Part of a committee

## Disgrifio'r broses recriwtio

### Describing the recruitment process

Gofynion oedran lleiaf

Gofynion oedran uchaf

Addas i bobl ifanc

Gweithdrefnau dethol..

Ffurflen gais

Trafodaeth Anffurfiol

Minimum age requirement

Maximum age requirement

Suitable for young people

Selection procedures...

Application form

Informal discussion

## Disgrifio'r broses recriwtio

### Describing the recruitment process

Cyfweliad ffurfiol

Geirdaon

Gwiriad gan y Gwasanaeth  
Datgelu a Gwahardd (DBS)

A oes unrhyw un sy'n  
anaddas...

Anaddas i unrhyw un sydd  
wedi cael gwaharddiad ISA

Unrhyw un gyda hanes o  
drais/camdriniaeth

Galwch heibio'r siop am sgwrs  
anffurfiol/ffurflen gais

Bydd angen caniatâd rhieni ar  
bobl ifanc 16-18 oed

Anfonwch e-bost neu ffoniwch  
am ragor o wybodaeth

Gweler ein gwefan

Treuliau 'parod'...

Cludiant

Lwfans bwyd

Costau gofal

Dillad/offer

A gynigir hyfforddiant...

Mae pecyn hyfforddiant  
cynhwysfawr ar gael

Hyfforddiant mewnol ar gyfer  
tasgau

Formal interview

References

Disclosure and Barring Service  
(DBC) Check

Is there anyone that is not  
suitable...

Not suitable for anyone who us  
ISA barred

Any individual with a history of  
violence/abuse

Call in to the shop for informal  
chat/application form

16-18 year olds need parental  
consent

Email or phone for additional  
information

See our website

'Out of pocket' expenses...

Transport

Food Allowances

Care costs

Clothing/equipment

Is training offered...

There is a comprehensive  
training package available

In house training for tasks

## Disgrifio'r broses recriwtio

### Describing the recruitment process

**Darperir hyfforddiant**

**Mae hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer gwirfoddolwyr**

**Sesiwn gynefino a hyfforddiant cyson**

**Bydd angen i wirfoddolwyr fynychu diwrnodau hyfforddiant gorfodol a chyfarfodydd cefnogi staff**

**Bydd y Gweinyddwr yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth**

**Bydd pob polisi a gweithdrefn yn cael ei egluro i'r gwirfoddolwyr**

**Mae pob un o'n gwirfoddolwyr yn cael cynnig hyfforddiant pellach drwy ein system ar-lein**

**Cyfnod Cynefino**

**Bydd hyfforddiant datblygu parhaus a chyfleoedd am hyfforddiant allanol yn cael eu cynnig**

Training provided

Training is essential for volunteers

Induction and on-going training

The volunteer will be required to attend mandatory training days and staff support meetings

Administrator will provide training and support

All policies and procedures will be explained to volunteers

All our volunteers are offered further training through our online system

Induction

Ongoing development training, opportunities for external training will be offered





Cefnogi Trydydd  
Sector **Cymru**

Third Sector  
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

---

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.